| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **30 MEHEFIN 2015** |
| TEITL: | **TYSTIOLAETH O LYWODRAETHU PRIODOL (ISA 240, ISA 250 ac ISA 550)** |
| PWRPAS: | **DIWEDDARU DEALLTWRIAETH YR ARCHWILIWR ALLANOL AM FEYSYDD LLYWODRAETHU A PHROSESAU BUSNES Y CYNGOR** |
| GWEITHREDIAD: | **YSTYRIED A CHYMERADWYO NEU ADDASU ATODIAD A** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

## 1. Cefndir

Cyn yr archwiliad ariannol o gyfrifon 2014/15 Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd, ysgrifennodd yr archwiliwr allanol (Amanda Hughes, Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru) at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio (Cyng. John Pughe Roberts) ar ran y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio) ac at y Pennaeth Cyllid (Dafydd Edwards) ar ran y rhai sy’n gyfrifol am reoli.

## 2. Ymholiadau Archwilio

Mae’r **llythyr atodol** yn gwneud ymholiadau archwilio safonol yn unol â’r *‘International Standards on Auditing’* (ISA 240, ISA 250 ac ISA 550), yn gofyn yn ffurfiol am ein hystyriaeth a’n dealltwriaeth wedi’i ddogfennu o'r meysydd llywodraethu a phrosesau busnes canlynol -

1. Prosesau mewn perthynas â thwyll,
2. Ymwybyddiaeth o unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll,
3. Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol,
4. Ymgyfreitha neu hawliadau posibl, a
5. Prosesau ynglŷn â thrafodion â phartïon cysylltiedig.

## 3. Ymateb Drafft

Ymhellach i ystyriaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor ac uwch reolaeth yr Adran Gyllid, darperir gwybodaeth yn yr ymateb ddrafft atodol. Mae’r tabl yn **Atodiad A** yn y ffurf gofynnwyd amdano gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yr ystyriaethau yma yn diweddaru dealltwriaeth Swyddfa Archwilio Cymru o’r Cyngor a chefnogi eu gwaith wrth ddarparu barn archwilio ar ddatganiadau ariannol y Cyngor a’r Gronfa Bensiwn ar gyfer 2014/15.

## 4. Argymhelliad

Gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio (‘y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu’) ystyried cynnwys Atodiad A yn ffurfiol, a chynnig unrhyw addasiadau priodol cyn i’r fersiwn derfynol gael ei gyfathrebu i Swyddfa Archwilio Cymru ar ran rheolwyr y Cyngor a’r Pwyllgor.